

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd Gorffennaf 8 fed 2015 am 7 - 0 o'r gloch.**

### **Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 8th July 2015 at 7pm.**

1. **Croeso / Welcome** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.  
*Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*
- Presennol / Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Alan Owen, Dafydd Roberts, Delyth Jones, Lewis Davies, Carwyn Jones a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau / Apologies**:- Wyn Hughes, Gareth Moore a Alwyn Rowlands  
Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn syth i bwynt 10 / *The meeting was opened by going straight to point 10.*
3. **Cofnodion / Minutes**  
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3ydd o Fehefin fel rhai cywir gan Cyng. R Roberts, eiliwyd gan Cyng. A Owen.  
*Minutes of the previous meeting held on 3<sup>th</sup> June were accepted as accurate by Clr. R Roberts, seconded by Clr. A Owen.*
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters arising from the minutes**
  - Grant i Gwella Amgylchedd - Clerc dal i ddisgwyl cadarnhad gan y Cyngor Sir ynglŷn ar gais am arwydd fflachio cyflymder. / *Clerk is still waiting for confirmation from the County Council regarding our application for the flashing speed sign.*
  - Giât ar dop y steps ar y llwybr ger Eglwys Penmon - Cyng. A Owen yn adrodd nid oes problem gyda'r giât nawr / *Gate at the top of the steps near Penmon Church - Clr A Owen reported there was no problem with the gate now.*
  - Tir Comin ger 1 Didfa - Clerc wedi cyfarfod y perchennog, mater bellach wedi ei ddatrys / *Common Land by 1 Didfa - Clerk has met the householder, matter is now resolved.*
  - Wall Lleiniog - Derbyniwyd ymateb i'n cais gan Un Llais, mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor Cymuned a Menter Môn. Cyng. L Davies i gysylltu ar Cyngor Sir i gael arweiniad / *Received a reply to our request from One Voice Wales, responsibility falls on the Community Council and Menter Môn. Clr L Davies to obtain guidance from the County Council*
  - Llwybr cyhoeddus ger Llyswyn - perchennog wedi gosod cerrig ger ochr y llwybr, yn beryglus i gerddwyr. Clerc i ysgrifennu iddo symud y cerrig / *Public footpath by Llyswyn - the householder has placed near the edge of the path which is dangerous to walkers. Clerk to send a letter to ask him to move the stones.*
5. **Datgan Diddordeb / Declaration of interest**
  - Cyng. L Davies ar bob cais cynllunio / *Clr L Davies on all planning applications*
  - Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. *Clr M Ellis and D Jones on the discussion about the Community Group.*
  - Cyng. A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre' / *Clr. A Owen on the discussion about the Village Hall.*
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**
  - 35C230A - Cais llawn ar gyfer codi balconi - yn Rossa, Penmon - dim gwthwynebiad. *Full application for the erection of a balcony at Rossa, Penmon - no objection.*
  - 35C87G,H,J,K,M,N,P/LB - Cais am caniatad adeilad rhestredig ar gyfer newid defnydd yr adeilad allannol i annedd presennol ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth AR UNEDAU 1 – 7 YN Tros Marian, Llangoed – mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn traffig ar y lôn gul, ffordd mewn cyflwr gwael, mae'r safle o fewn AHNE / *Application for listed building consent for the conversion of existing outbuilding into a dwelling with the installation of a package treatment plant in unit 1 – 7 at Tros Marian, Llangoed – concerns were raised regarding the increase in traffic using the narrow lane, the lane is in a poor condition, also the site is within AONB.*
- Er gwybodaeth / Information**
  - 35C319 - cais llawn ar gyfer newid defnydd y capel/ysgody i annedd sydd yn cynnwys 2 balconi, codi modurdy newydd a gosod paneli solaryn Capel Ty Rhys, Llangoed - wedi ei caniatáu / *Full application for the conversion of the chapel/school room into a dwelling which incorporates 2*

*balconies, erection of a garage and the installation of solar panels at Capel Ty Rhys, Llangoed – has been granted.*

- 35C320A – cais amllinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa a graddfa tir yn Pen y Waen, Glanrafon – wedi ei caniatáu / *Outline application for the erection of a dwelling together with full details of access and scale on land adjacent to Pen y waen, Glanrafon – has been granted.*

### **7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol / Report by the County Councillor**

7.1 Lôn Wern - dwr yn dal i lifo lawr y lôn. Cyngor Sir i edrych ar y mater / *Water is flowing down the road. County Council to look at the mater.*

7.2 Lonydd lleol - Cyngor Sir i werthuso ffyrdd lleol / *County Council is to evaluate all the local roads.*

7.3 Clawdd Tŷ Newydd angen ei dorri / *Hedge by Ty Newydd needs cutting*

7.4 Llwybr Gwelfor – angen ei dorri / *Gwelfor footpath – needs cutting*

7.5 Twll yn y wal fôr ger Tŷ Dewi / *Hole in the sea wall by Ty Dewi*

7.6 Llwybr Hendy – rhannau pren ar y llwybr troed wedi eu hatgyweirio gan y Cyngor Sir / *Wooden sections of the path have been repaired by the County Council.*

### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

Dim adrodd y ar hyn o bryd / *Nothing to report at this moment.*

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Wedi bod yn llwyddiannus gyda grant Cymunedau Cyntaf o £3,000 i bwrcasu eitem i'r maes chwarae. Ond oherwydd amodau grant mae rhaid pwrcasu'r eitem gyntaf ac wedyn adennill yr arian yn ôl trwy'r grant. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned talu am yr eitem ar ôl i'r Clerc i gael cadarnhad or talidau'r grant / *Have been successful with the Community First grant of £3,000 to purchase item for the Play Area. Because of the grant conditions the item must be paid for first and then reclaimed via the grant. It was resolved that the Community Council pay for the item after the Clerk has obtained confirmation of the grant payments.*
- Diwrnod hwyl wedi ei drefnu ar 29/08/15 / *Fun day arranged on 29/08/15.*
- Bydd digwyddiadau yn cymryd lle yn y maes chwarae bob dydd Mercher am chwe wythnos nesaf / *there will be events taking place at the playing fields every Wednesday for the next six weeks.*

### **10. Prosiect Afon Lleiniog / Lleiniog Project**

Simon Hunt yn bresennol wrth nodi ei gynllun i ffensio'r ddol er mwyn cadw anifeiliaid yno. Bydd hyn yn helpu cynnal yr ardal yn ystod y gwanwyn a haf. Byddai amcangyfrif o'r gost tua £5k. Eglurodd y byddai chyllid o ffynonellau eraill ar gael gyda grant cyfatebol oddi wrth NRW. Cyfraniad a ddisgwyllir gan y Cyngor Cymuned tua £1,500. Penderfynwyd yn unfrydol i gyfrannu tuag at y gwaith.

Plant blwyddyn 5+6 o Ysgol Llangoed yn gyd weithio a Simon i greu taflen a phanel gwybodaeth  
*Simon Hunt was present to set out his plan to fence the meadow to keep livestock there. This will help maintain the area during the spring and summer. Estimated cost would be around £5k. Explained that a with finance from other sources and a match funded grant from NRW, expected contribution from the Community Council would be around £1,500. It was resolved unanimously to contribute towards the work.*

*Children of year 5+6 Llangoed School are involved in the design of the leaflet and information panel.*

### **11. Cartref Preswyl Haulfre / Residential Home**

Cyng. L Davies - cafodd Cynghorwyr Ward Seiriol ei galw i gyfarfod yn y Cyngor Sir, lle hysbyswyd am adroddiad yn nodi pryderon mawr gyda Haulfre, ac yn bwriadu cau'r cartref mewn rhyw dair wythnos. Y teimlad yw bod yr adroddiad wedi ei greu yn benodol i gau'r cartref. Ar law arall, oedd y Cyngor Sir yn ceisio atal y Cynghorwyr mynd i'r wasg gyda'r newyddion.

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar 3/07/15 yn Neuadd y Pentre', gyda nifer yn bresennol, lle godwyd nifer o gwestiynau. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir gyda 15 cwestiwn treiddgar iawn.

Cawsom gyfarfod gyda Pwyllgor Gwaith lle cyflwynwyd dau opsiwn iddynt:-

- a) Gwario ar Haulfre nes i ddarpariaeth arall cael ei sefydlu yn yr ardal
- b) I fynd ymlaen a'r ymgynghoriad

Penderfynon fynd ymlaen gyda'r ymgynghoriad.

Rydym nawr yn gobeithio cael cyfarfod llawn o'r Cyngor i wneud penderfyniad.

Penderfynwyd anfon cais Rhyddid Gwybodaeth i gael copiâu adroddiad tan 2013, 2015 ac adroddiad Iechyd a Diogelwch diweddaraf ac anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

Hefyd penderfynwyd trefnu cyfarfod brys gyda Cynghorwyr lleol ar 10/08/15 am 7 o'r gloch yn Neuadd y pentre'.

*/ Councillors for the Seirio Ward were summoned to a meeting at the County Council and were informed of a report identifying major concerns at haulfre, and were considering closing the home in about 3 weeks. Feeling is that this report was created specifically to close the home. On the other hand, the County Council was trying to prevent the Councillors going to the press with this information. A public meeting was hastily arranged on the 3/07/15 in the Village hall, which was well attended, and a number of questions were raised. I have also written to the County Council asking 15 very searching questions.*

*We attended a meeting with the Executive Committee and presented them with two options:-*

- a) Spend on Haulfre until an alternative provision is established in the area*
- b) Go on with the consultation*

*They decided to go ahead with the consultation.*

*We now hope to have a full Council meeting in order to make a decision.*

*It was resolved to send a FOI request to obtain copies of the Fire Report 2013, 2015 and latest Health and Safety report and send letter to the County Council.*

*It was also resolved to arrange an emergency meeting with local Councillors on the 10/08/15 @ 7pm at the Village Hall. Discuss care for the elderly in the seriol ward.*

## **12. Fynwent y Plwyf/Parish Cemetary**

*Wedi ei godi o 10% o 1/06/15. Penderfynwyd gofyn i gwmni A-Z peintio'r giataiau.*

*Fee has been raised by 10% from 1/06/15. It was also agreed to ask A-Z to paint the gates.*

## **13. Cyfrifon/Accounts**

*• Clerc yn egluro gwariant ac incwm chwarter 1 / Clerk explained the income and expenditure of Qrt1.*

### **Taliadau / Payments:-**

- Aelodaeth SLCC 2015/16 / SLCC membership 2015/16 - £65.00*
- Cyflog y Clerc Ebrill - Mehefin / Clerks salary April - June - £443.30*

## **14. Gohebiaeth/Correspondence**

*Llythyr/Letter - Cyngor Sir / County Council - wall Lleiniog / Lleiniog wall*

*E-bost/e-mail - S Mc Vicar, Taith Hwyl beics / Fun Bike Ride*

*E-bost/e-mail - coed yn gordyfu ger y Wern / overgrown trees by Wern*

*E-bost/e-mail - Un Llais / One Voice - cyngor am wal Lleiniog / advice about the Lleiniog wall*

## **15. UFA/AOB:**

*15.1 Sleid yn faes chwarae'r plant wedi torri. Cyng. A Owen wedi cytuno i atgyweirio / Slide in the Childrens play area is damaged. Clr A Owen has agreed to repair.*

*15.2 Cyng M Ellis - oherwydd cymaint yn mynd ymlaen yn yr ardal, fasa'n ddefnyddiol cael Cynghorwyr y ward yn presennol, awgrymed fasa'n bosib newid noson y cyfarfod i'r dydd Mercher cyntaf y mis?*

*Byddai hyn yn osgoi'r gwrthdaro ar gyfarfod Cyngor Cymuned Cwm Cadnant - Clerc i edrych os ydi'r Neuadd ar gael ar ddydd Mercher cyntaf o'r mis / Clr M Ellis - because so much is going on in the area, suggested if it was possible to change the date of our meeting to the first Wednesday of the month?*

*This would avoid the conflict with the meeting of Cwm Cadnant Community Council - Clerk to check if the Village Hall is available on the first Wednesday of the month.*

*15.3 Llwybr Lôn Ddŵr - angen cynnal a thrwsio / Ramsey Way Footpath - requires maintenance*

*15.4 Wedi derbyn cwyn am y coed yn Warchodfa Wern yn tyfu dros i'r briff ffordd / Complaint about the trees from Wern Nature Reserve growing over onto the road*

*15.5 Taith Hwyl Beics - digwyddiad yn fwy, wedi codi mwy o arian ond mae'r costau yn uwch / Fun Bike Ride - the event was bigger, raised more money but the costs where higher.*

*15.6 Clawdd yn gordyfu yn y man-troi yn Tawelfan / hedge is overgrown by the turning area in Tawelfan.*

## **16. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

*Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 10/08/2015.*

*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution.*

*Meeting came to an end at 9.40pm. Next meeting 10/08/15.*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date